OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1990

## Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015

**Pwerau Gweinidogion Cymru**

**7.**—(1) O 6 Ebrill 2016 ymlaen, caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad i weithredwr cronfa ddata, sy'n gwneud yn ofynnol ei fod yn darparu iddynt—

(a) unrhyw wybodaeth a gofnodwyd yn y gronfa ddata;

(b) unrhyw wybodaeth ynglŷn â gweithrediad y drefn reoleiddio a sefydlir gan y Rheoliadau hyn;

(c) unrhyw wybodaeth sy'n angenrheidiol i ddangos bod y gweithredwr cronfa ddata yn bodloni'r amodau yn rheoliad 6.

(2) Os bodlonir Gweinidogion Cymru nad yw gweithredwr cronfa ddata yn bodloni'r amodau yn rheoliad 6, caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad sy'n gwneud yn ofynnol fod y gweithredwr—

(a) yn peidio â honni ei fod yn bodloni'r amodau yn rheoliad 6;

(b) yn darparu, i Weinidogion Cymru neu i weithredwr cronfa ddata arall, gopi electronig o'r holl ddata a gofnodwyd yn ei gronfa ddata yn unol â rheoliad 3(5)(b).